# Cynlluniau Wcráin
# Cwestiynau Cyffredin

Caiff Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru, a sefydlwyd yn 2001, ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i hwyluso arweinyddiaeth strategol, cyngor a chydgysylltu mewn perthynas ag ymfudo. Cynhelir y Bartneriaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i adlewyrchu ei rôl ledled Cymru gyfan mewn perthynas ag ymfudo.

Mae Cydlynydd Cynlluniau Wcráin y Bartneriaeth yn arwain ar Gynllun Noddi Wcráin, Cynllun Teuluoedd Wcráin a Chynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin Llywodraeth y DU ledled Cymru. Mae'r cydlynydd yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y Swyddfa Gartref, cynghorau, y sector gwirfoddol a phartneriaid eraill yng Nghymru. Mae'r rôl hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Uwch-noddwr.


| |
|---|
| **Beth yw'r Cynlluniau Wcráin?** |
| **Beth yw Cynllun Noddi Wcráin: Cartrefi i Wcráin?** |
| **Beth yw 'Taliad Diolch?'** |
| **Sut ydw i'n noddi rhywun?** |
| **Beth yw Cynllun Uwch-noddwr Llywodraeth Cymru?** |
| **Beth yw Cynllun Teuluoedd Wcráin?** |
| **Beth yw Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin?** |
| **Beth yw Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin?** |
| **Pa hawliau sydd gan Wcreiniaid?** |
| **Beth yw Hawlen Preswylio Biometrig?** |
| **Ydi plant Wcrainaidd yn gallu mynd i'r ysgol?** |
| **A oes sefydliadau sy'n gallu darparu cefnogaeth** |
| **Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth?** |


## Beth yw'r Cynlluniau Wcráin?

Lansiodd Llywodraeth y DU dri chynllun i gefnogi Wcreiniaid sy'n ffoi'r rhyfel yn Wcráin. Sef: Cynllun Noddi Wcráin, a elwir hefyd yn 'Cartrefi i Wcráin', Cynllun Teuluoedd Wcráin (wedi cau) a Chynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin (wedi cau).

Fel rhan o gynllun Cartrefi i Wcráin cytunodd llywodraethau Cymru a'r Alban i ddod yn "Uwch-noddwyr", gan ddarparu cartrefi i Wcrainiad heb gael eu paru. Yng Nghymru, mae 9,865 o fisas wedi'u cyhoeddi, gyda chyfanswm o 7,820 o Wcreiniaid wedi cyrraedd dan y cynllun hwn. Mae 4,482 o Wcreiniaid wedi cyrraedd dan noddwyr unigol fel rhan o'r cynllun Cartrefi i Wcráin, a 3,338 arall wedi'u noddi gan Lywodraeth Cymru.

Ers hyn, ar 19 Chwefror 2024, mae Llywodraeth y DU wedi cau Cynllun Teuluoedd Wcráin, wedi gwneud newidiadau i'r Cynllun Noddi Wcráin ac wedi lansio cynllun newydd o'r enw Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin.

## Beth yw Cynllun Noddi Wcráin: Cartrefi i Wcráin?

Mae Cynllun Cartrefi i Wcráin yn gynllun gan Lywodraeth y DU sy'n caniatáu i bobl ledled y DU gynnig cefnogaeth a chroesawu Wcreiniaid i'w cartrefi. Mae'r rheiny sy'n cofrestru â'r cynllun ac yn cynnig llety yn cael eu galw'n 'noddwyr' neu'n 'lletywyr' ac mae'r Wcreiniaid sy'n byw gyda nhw'n cael eu galw'n 'westeion'. Nid yw noddwyr yn gallu codi rhent ar eu gwesteion ac mae disgwyl i'r noddwyr a'r gwesteion weithio gyda'i gilydd i gytuno ar y ffordd orau i ddelio gyda biliau a helpu ei gilydd.

## Beth yw 'Taliad Diolch?'

I gydnabod cynigion noddwyr i gefnogi'r cynllun Cartrefi i Wcráin, mae cynghorau, ar ran Llywodraeth y DU, yn gwneud 'taliadau diolch', sef £350 y mis ar gyfer y 12 mis cyntaf a £500 ar ôl hynny. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £150 arall tuag at 'daliadau diolch' y 12 mis cyntaf er mwyn i'r noddwyr gael £500 y mis.

## Sut ydw i'n noddi rhywun?

I ddod yn noddwr, ers 19 Chwefror 2024, mae'n rhaid i chi fodloni'r meini prawf cymhwyso canlynol:

- Bod yn hŷn na 18 oed
- Bod yn byw yn y DU
- Bod yn Ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig neu wedi setlo yn y DU (h.y. bod gennych hawl i fyw yn y DU yn barhaol), ar ddyddiad cais y gwestai am fisa

Mae Llywodraeth y DU yn darparu canllawiau ar gymhwystra, diogelu, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau llety ar gyfer Cynllun Cartrefi i Wcráin i gefnogi noddwyr a lletywyr posibl i ddeall y broses yn well. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: Eligibility, safeguarding, DBS and accommodation checks: Homes for Ukraine - GOV.UK (www.gov.uk)

I gofrestru eich diddordeb i gefnogi Wcreiniaid yng Nghymru, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

Mae Housing Justice Cymru yn cynnig sesiynau hyfforddi ar fod yn noddwr yng Nghymru. Cliciwch yma i gael mwy o wybodaeth am sut i gofrestru.

## Beth yw Cynllun Uwch-noddwr Llywodraeth Cymru?

Yn unol â'i huchelgais i ddod yn 'Genedl Noddfa' gyntaf y byd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fod yn 'Uwch-noddwr' ar gyfer dinasyddion Wcrainaidd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu llety, cefnogaeth a gofal cychwynnol drwy sefydlu rhwydwaith o 'ganolfannau croeso' sy'n darparu llety cychwynnol i bobl ar ôl iddynt gyrraedd. Ar ôl eu harhosiad cychwynnol, mae'r dinasyddion Wcrainaidd yn gweithio gyda chynghorau a Llywodraeth Cymru i drefnu llety 'symud ymlaen', naill ai gyda noddwr unigol neu yn y sector rhentu preifat. **Mae'r cynllun hwn wedi'i oedi am rŵan.**

## Beth yw Cynllun Teuluoedd Wcráin?

Cynllun Teuluoedd Wcráin oedd y cynllun cyntaf i gefnogi dinasyddion Wcráin, a lansiwyd gan y Swyddfa Gartref. Roedd Cynllun Teuluoedd Wcráin yn caniatáu i ymgeiswyr ymuno ag aelodau o'u teulu sydd eisoes yn byw yn y DU. **Mae'r cynllun wedi cau ers 19 Chwefror 2024** ac felly ni all Wcreiniaid wneud cais i ymuno â'r cynllun bellach.

## Beth yw Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin?

Mae Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin yn caniatáu i ddinasyddion o Wcráin aros yn y DU os ydynt wedi cael caniatâd i fod yn y DU ar neu rhwng 18 Mawrth 2022 ac 16 Tachwedd 2023 neu os oedd ganddynt ganiatâd yn flaenorol i fod yn y DU a bod y caniatâd hwnnw wedi dod i ben ar neu ar ôl 1 Ionawr 2022. Yn wahanol i'r Cynllun Noddi Wcráin a'r Cynllun Teuluoedd Wcráin, nid oes angen noddwr yn y DU ar gyfer hyn. Bydd y cynllun hwn ar agor tan 16 Mai 2024 ond ar ôl hynny dim ond rhieni plant Wcrainaidd sydd wedi'u geni yn y DU fydd yn gallu manteisio arno, er mwyn rheoleiddio statws mewnfudo eu plentyn.

## Beth yw Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin?

Mae Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin yn gynllun newydd a gyhoeddwyd ar 19 Chwefror 2024. Dan y cynllun hwn bydd unigolion sydd wedi cael caniatâd i aros yn y DU dan un o'r Cynlluniau Wcráin yn gallu gwneud cais am ganiatâd i aros yn y DU am 18 mis arall. Bydd modd i Wcreiniaid wneud cais 3 mis cyn i'w fisas ddod i ben.

## Pa hawliau sydd gan Wcreiniaid?

Bydd gan Wcreiniaid sy'n rhan o'r cynlluniau hyn **hawl i gyllid cyhoeddus**, sy'n golygu y gallant ddefnyddio pob gwasanaeth cyhoeddus fel budd-daliadau a chymorth tai os ydynt yn gymwys. Mae plant yn gallu cael addysg ac mae'r rheiny sy'n dymuno mynd i brifysgol yn gallu derbyn cymorth drwy Gyllid Myfyrwyr.

Dan y Cynlluniau Wcráin, gall Wcreiniaid hefyd weithio a byw yn unrhyw le yn y DU. Bydd yn rhaid iddynt brofi eu hawl i weithio a'u **hawl i rentu (Lloegr yn unig)** yn defnyddio gwasanaeth ar-lein a ddarperir gan y Swyddfa Gartref. Bydd arnynt angen Hawlen Preswylio Biometrig neu gyfrif Fisas a Mewnfudo'r DU. Prove your right to work to an employer: Overview - GOV.UK (www.gov.uk)

Yn yr un modd ag unrhyw ddinesydd Prydeinig, bydd angen rhif Yswiriant Gwladol ar Wcreiniaid sy'n dymuno gweithio neu hawlio budd-daliadau. Apply for a National Insurance number: Who can apply for a National Insurance number - GOV.UK (www.gov.uk)

## Beth yw Hawlen Preswylio Biometrig?

Mae Hawlen Preswylio Biometrig yn gerdyn sy'n nodi statws mewnfudo'r unigolyn. Gellir ei defnyddio i brofi hawliau unigolyn i astudio, i hawlio budd-daliadau neu i gael cymorth gan y cyngor.

O 1 Ionawr 2025 bydd yr Hawlen Preswylio Biometrig yn cael ei disodli gan fisa electronig (eFisa), sef cofnod ar-lein o'ch statws mewnfudo ac amodau'ch caniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU. Bydd arnoch chi angen cyfrif UKVI i gael mynediad at eich fisa. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am eFisas yma: Online immigration status (eVisa) - GOV.UK (www.gov.uk)

## Ydi plant Wcrainaidd yn gallu mynd i'r ysgol?

Gall plant Wcrainaidd gael lle mewn ysgol yn y DU. Yng Nghymru, mae'n rhaid i ddinasyddion Wcrainaidd wneud yn siŵr bod unrhyw blentyn sydd ganddynt rhwng 5 ac 16 oed yn cael addysg lawn amser. Gall cynghorau a noddwyr gefnogi gwesteion gyda'r broses dderbyn.

## A oes sefydliadau sy'n gallu darparu cefnogaeth?

Yng Nghymru a'r DU ceir nifer o sefydliadau sy'n cefnogi Wcreiniaid a'u noddwyr. Dyma ychydig o sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth (nid yw hon yn rhestr gyflawn):
Noddfa | Wcráin (gov.wales)
Housing Justice Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
RESET (Homes for Ukraine)
Opora
Settled

## Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth?

E-bostiwch WSMPComms@wlga.gov.uk gan roi 'ymholiad Cynlluniau Wcrain' fel pwnc.